| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **28 Medi 2015** |
| **Swyddog Arweiniol:** | **Richard Weigh, Prif Swyddog Cyllid** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Steve Gadd, Prif Gyfrifydd** |
| **Teitl:** | **Cymeradwyo Datganiad Cyfrifon 2014/15** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol i baratoi datganiad cyfrifon sy'n cydymffurfio â safonau cyfrifo cymeradwy. Mae'n rhaid i'r cyfrifon archwiliedig gael eu cymeradwyo'n ffurfiol gan aelodau etholedig ar ran y Cyngor.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Cymeradwywyd datganiadau ariannol 2013/14, yn amodol ar archwiliad, gan y Prif Swyddog Cyllid ar 25 Mehefin 2015. Dosbarthwyd y cyfrifon drafft i Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ar 23 Gorffennaf 2015 fel y cytunwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Mai.

Mae'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio yn gofyn i'r Cyngor gymeradwyo'r cyfrifon archwiliedig, gan gynnwys barn yr archwilydd allanol, yn ffurfiol erbyn diwedd mis Medi. Cafodd cymeradwyo'r cyfrifon archwiliedig ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol.

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn cael ei baratoi yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS). Mae Sefydliad Siartredig Cyllid a Chyfrifeg Cyhoeddus (CIPFA) yn cynhyrchu Cod Ymarfer ar Gyfrifeg Awdurdodau Lleol, yn seiliedig ar IFRS ac mae'r Cyngor wedi paratoi cyfrifon 2014/15 yn unol â'r Cod hwnnw.

Mae'r cyfrifon yn cynnwys barn gyfrifo a thystysgrif archwilio diamod.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod yr aelodau etholedig yn cymeradwyo Datganiad Cyfrifon 2014/15 sydd yn Atodiad 1 yr adroddiad hwn.

Bydd gofyn i'r Cadeirydd ac i'r Prif Swyddog Cyllid lofnodi'r Cyfrifon a'r Llythyr o Sylwadau yn y cyfarfod.

## 4. Manylion yr Adroddiad

Cafodd y cyfrifon sy'n cael eu cyflwyno eu paratoi yn unol â'r safonau cyfrifo gofynnol.

Cyfres o safonau cyfrifo sy'n cael eu defnyddio ledled y byd yw'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Cafodd y Safonau eu datblygu ar gyfer y

sector breifat ond, mewn egwyddor, mae'r mwyafrif helaeth o drafodion yr un fath o ran cyfrifo beth bynnag yw'r sector. Gan fod yna rai meysydd lle mae triniaeth gyfrifo'r sector cyhoeddus yn wahanol i'r Safonau rhyngwladol (oherwydd, er enghraifft, gofynion deddfwriaethol) cafodd set ychwanegol o safonau eu cyflwyno ar eu cyfer sy'n cael eu galw yn Safonau Cyfrifo'r Sector Cyhoeddus.

Roedd y cyfrifon ar gael i'w harchwilio yn ôl y gofyn ac maen nhw hefyd wedi bod ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio. Bu Swyddfa Archwilio Cymru yn archwilio'r cyfrifon a bydd trosolwg o'u canfyddiadau a'u hasesiad o'r broses yn cael eu cyflwyno mewn adroddiad i'r Pwyllgor.

Arweiniodd y broses archwilio at rai newidiadau technegol ac at gywiriadau a newidiadau eraill. Bydd rhagor o fanylion o'r rhain yn cael eu cyflwyno yn adroddiad yr archwiliwr.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae cyhoeddi Datganiad Cyfrifon yn sail i stiwardiaeth a llywodraethu ariannol y Cyngor ac felly mae'n cefnogi holl wasanaethau a blaenoriaethau'r Cyngor.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Does dim costau ychwanegol yn codi o ganlyniad i'r adroddiad hwn.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai fod templed o'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi ei lenwi a'i atodi fel atodiad i'r adroddiad.**

Ddim yn berthnasol.

**8. Pa ymgynghori a wnaed?**

Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi gweithio'n agos â'r tîm Cyllid er mwyn sicrhau fod yr archwiliad yn cael ei gwblhau mewn pryd ac yn llwyddiannus.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Unwaith eto, mae'r Datganiad Cyfrifon wedi derbyn barn archwilio ddiamod. Mae hyn yn gryn lwyddiant o gofio am faint a chymhlethdod y cyfrifon. Bydd gweithdrefnau mewnol yn parhau i gael eu hadolygu'n flynyddol er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn dal yn darparu datganiadau ariannol o ansawdd da. Bydd hyn yn ystyried y materion a godwyd yn yr archwiliad sydd wedi eu codi yn yr adroddiad archwilio.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Byddai'r Cyngor yn torri ei ddyletswydd statudol pe na fyddai'n gallu cymeradwyo'r cyfrifon erbyn 30 Medi.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Mae Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn gofyn i'r Cyngor sefydlu trefniadau rheoli ariannol priodol. Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio yn gofyn i'r Cyngor gymeradwyo'r cyfrifon archwiliedig erbyn 30 Medi.